

YMARFER 14: Sylwadau

Whose Wellbeing? Whose Future¹

The protest had been organised by Climate Strike Bangor, a branch of the international movement inspired by the now famous Swedish school girl². The wind and rain had not put off thirty or so young people³ who skipped school⁴ that afternoon to try and make their views and presence felt⁵. The idea for the coffin was 'a bit stark'⁶ one acknowledged but had been devised in order to express the abstract idea of a future loss in as dramatic and emotive a way as possible. 'I am really worried⁷ I won't have a future,' the main event organiser, aged only seventeen⁸, explained. 'We decided to write Future Generations on the coffin because that's something we hear about a lot⁹ in Wales ...'.

The Well-Being of Future Generations Act (2015)¹⁰ was designed to allow public officials the opportunity to think long term towards achieving a sustainable future, beyond mere short term financial gain. A guide to the act produced for young people promises that the Commissioner for Future Generations will 'act as a guardian for your future'.¹¹ It further compels public agencies to work towards seven connected well-being goals, usually pictured as segments of a colourful wheel. These include 'a prosperous Wales', 'a resilient Wales', 'a healthier Wales', 'a more equal Wales', 'a Wales of cohesive communities', 'a Wales of vibrant culture and thriving Welsh language' and 'a globally responsible Wales'¹².

Together these present quite a lot of aims to combine through the mechanisms of devolved government, which provides some of the tools, though not all, towards their realisation.¹³

[*Whose Wellbeing? Whose Future*, **Planet**, Rhif: 238, tt 22-23]

1. Cywair **Whose Wellbeing? Whose Future?**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Ond Llesiant Pwy? Dyfodol Pwy?*
2. *Ond Lles Pwy? Dyfodol Pwy?*
3. *Er Lles Pwy? Y Dyfodol yn eu Dwylo?*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Llesiant Pwy? Dyfodol Pwy?*
2. *Lles Pwy? Dyfodol Pwy?*

SYLWADAU:

1. Pennawd sydd yma ac mae angen dal sylw'r darlennydd. 'Llesiant' yw'r gair yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ond a oes ei wir angen yma yn nheitl yr erthygl? Y nod yw cyrraedd y gynulleidfa ehangaf posibl i ddarllen yr erthygl.

2. Gellid ychwanegu *Ond* fel yn Afl.1 ac Afl.2 neu *Er* fel yn Afl.3 i gryfhau ergyd y gwreiddiol ond teimlaf nad oes angen gwneud hynny yma. Y mae Afl.3 drwy ychwanegu *yn eu dwylo* yn newid yr ystyr. Dyma enghraifft o orgyfieithu.

2. **Cystrawen/
Cywirdeb/** ...now famous Swedish school girl.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...merch ysgol Swedaidd.*
2. *...merch ysgol o'r Swistir.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...merch ysgol o Sweden.*

SYLWADAU:

1. Nid yw *Swedaidd* yn addas yma o gwbl; dilyn patrwm y Saesneg a wnaed yn llythrennol. Mae'r un gwall yn digwydd yn aml wrth gyfieithu 'Welsh' lle na chyfeirir at yr iaith Gymraeg ond at y ffaith y daw rhywbeth o Gymru neu ei fod yn perthyn i Gymru. Cofier mai Sioe Frenhinol Cymru a ddywedir ac nid Sioe Frenhinol Gymreig.
2. *Merch ysgol o Swistir*. Llithriad efallai ond llithriad cwbl anfaddeuol i gyfieithydd gan mai cyflwyno ffeithiau yn gywir yw ei brif waith.

3. **Ystyr/
Cystrawen** The wind and rain had not put off thirty or so young people...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Ni lwyddodd y gwynt na'r glaw newid meddwl...*
2. *Ni stopiodd y gwynt a'r glaw tua thriedeg o bobl ifanc ddewis peidio mynd.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Nid oedd y gwynt a'r glaw wedi rhwystro tua thri deg o bobl...*
2. *Er y gwynt a'r glaw, fe ddaeth deg ar hugain o bobl ifanc...*

SYLW:

1. Mae angen yr arddodiad 'i' yn dilyn y ferf llwyddo yn Afl.1 a'r un modd yr arddodiad 'â' ar ôl 'peidio'. Mae'n wir bod enghreifftiau o ordddefnyddio'r 'i' o flaen berfau ond mae ei angen o flaen rhai berfau megis 'llwyddo'/'parhau' yma.

4. **Cywair/
Cystrawen** ...who skipped school...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...colli addysg...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...a gollodd ysgol...*

SYLW:

1. Efallai bod *colli addysg* yn rhy benagored yma; sôn am *gollu ysgol* fyddwn ni yn y cyswllt yma.

5. Cywair

...make their views and presence felt.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...sichrau bod eu presenoldeb yn cael ei deimlo.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...gofalu eu bod yno i leisio barn.*
2. *...sichrau eu bod yn cael eu clywed a'u gweld.*
3. *...lleisio eu barn a dangos eu hochr.*

SYLW:

1. Mae Afl.1 yn enghraifft o gyfieithu llythrennol heb ymgais i gyfleu'r ystyr mewn ffordd naturiol yn Gymraeg. Gwelir yn y tair enghraifft lwyddiannus ymdrech dda i wneud hynny.

6. Cywair

The idea for the coffin was 'a bit stark'...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *annoeth*
2. *hurt*
3. *anystwyth*
4. *llwm*
5. *llym*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *ychydig yn eithafol*
2. *ychydig yn egr neu arw*
3. *ychydig yn erchyll neu ddychrynlyd*
4. *ychydig yn wallgof*
5. *ychydig yn ysgytwol*

SYLWADAU:

1. Roedd hi'n anodd dod o hyd i'r union eiriau i gyfleu 'a bit stark'. Mae *annoeth* yn dangos dychymyg ac yn cyfleu'r cyfaddefiad a geir yn 'a bit' ond heb gynnwys yr arlliw a geir yn 'stark'.
2. Y neges yw peidiwch byth â chyfieithu'n llythrennol gan

ddibynnu ar yr hyn a geir mewn geiriadur heb ei gymhwyso i'r cyd-destun dan sylw. Cyfieithiad llythrennol ar sail yr hyn sydd mewn geiriadur sydd i gyfrif am ddewis *anystwyth*, *llwm* neu *llym*.

7. Cywair

I am really worried

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Rydw i'n wirioneddol boeni*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Rydw i'n poeni'n fawr*
2. *Rydw i'n poeni go iawn*
3. *Rydw i'n poeni'n arw*

SYLWADAU:

1. Glynw yn rhy glos at batrwm y Saesneg (Afl.1).
2. Gellid defnyddio berfau mwy tafodieithol megis 'becso' neu 'ofidio' gan mai rhan o araith ydyw.

8. Cywair/ Cywirdeb

...aged only seventeen

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...oedd yn ddau flwydd ar bymtheg yn unig*
2. *...oedd yn ddwy flwydd ar bymtheg yn unig*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...sydd ond dwy ar bymtheg*
2. *...sydd ond yn ddwy ar bymtheg oed*
3. *...sydd ond yn un-deg saith*

SYLWADAU:

1. Cyfieithu llythrennol oedd yn gyfrifol am ddefnyddio *yn unig* i gyfieithu 'only' yma.
2. Hefyd sylwer mai'r ffurf fenywaidd sydd ei angen yma – *dwy ar bymtheg* ac nid *dau* wrth gyfeirio at oedran.

9. Cystrawen

...we hear about a lot

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...rhywbeth rydyn ni'n ei glywed am lawer*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...clywn lawer o sôn am hyn*

SYLW:

1. Dyma ddilyn patrwm y gystrawen yn y Saesneg gwreiddiol (Afl.1). Y mae angen i'r cyfieithydd bwyllo a gofyn iddo'i hun sut y mae dweud hyn yn naturiol yn Gymraeg.

10. Cystrawen **The Well-Being of Future Generations Act (2015)**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*

SYLWADAU:

1. Nid oes angen y fannod yma. Y mae'r hyn sy'n dilyn yr enw 'Ddeddf' yn enidol ac felly yn gwneud y 'Ddeddf' yn benodol.

11. Cywair **A guide to the act produced for young people promises that the Commissioner for Future Generations will 'act as a guardian for your future'.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Mae canllaw i'r Ddeddf a grewyd **ar gyfer** pobl ifanc yn addo y bydd y Comisiynydd **ar gyfer** Cenedlaethau'r Dyfodol yn gweithredu fel gwarcheidwad ar gyfer eich dyfodol.*
2. *Mae canllaw **ar gyfer** y ddeddf, sydd wedi ei gynhyrchu **ar gyfer** pobl ifanc, yn rhoi addewid y bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn 'ymddwyn fel gwarchodwr ar gyfer eich dyfodol'.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Mae canllaw'r ddeddf, a gynhyrchwyd **ar gyfer** pobl ifanc, yn rhoi addewid y bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn 'ymddwyn fel gwarchodwr eich dyfodol'.*

SYLWADAU:

1. Dyma enghreifftiau o ordddefnyddio'r arddodiad 'ar gyfer' sy'n wall eithaf cyffredin wrth gyfieithu. Dim ond o flaen *pobl ifanc* i gyfieithu '**for young people**' y mae ei angen yma fel y gwelir yn y cyfieithiad llwyddiannus.
2. Dilyn y gwreiddiol yn rhy agos a chyfieithu fesul gair sy'n gyfrifol am y gordddefnydd yma yn ogystal ag ansicrwydd wrth gyfieithu '*for*' - pa arddodiad i'w ddewis yn Gymraeg. Gall fod yn am / at / dros / i / ar gyfer, gan ddibynnu ar y cyd-destun.

12. Cywirdeb **'a globally responsible Wales'**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang*
2. *Cymru â chyfrifoldeb byd-eang*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang*

SYLW:

1. Dyma gymal anodd ei gyfieithu ac er bod ymdrechion Afl.1 ac Afl.2 yn gynigion da, y cyfieithiad llwyddiannus yw'r geiriad a ddefnyddir gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ac â bod yn onest, gan mai dyma un o'r 'Saith Nod Llesiant', byddwn i'n disgwyl i gyfieithydd fod yn gyfarwydd â'r geiriad hwnnw a'i ddefnyddio.

13. Cywair

Together these present quite a lot of aims to combine through the mechanisms of devolved government, which provides some of the tools, though not all, towards their realisation.

Cyfieithu aflwyddiannus:

- 1. Mae rhain gyda'i gilydd yn cyflwyno sawl nod i'w cyfuno drwy fecanweithiau llywodraeth ddatganoledig. Mae'r llywodraeth yn darparu peth cymorth, ond nid popeth sydd ei angen, i wireddu'r nodau llesiant.*
- 2. Ar y cyd, mae'r rhain yn cyflwyno llawer iawn o amcanion i'w cyfuno drwy fecanweithiau llywodraeth ddatganoledig, sy'n darparu peth o'r arfau, er nad pob un, tuag at eu gwireddu.*
- 3. Gyda'i gilydd mae rhain yn cynrychioli cryn dipyn o amcanion i'w cyfuno drwy fecanwaith llywodraeth ddatganoledig, a all gynnig rhai o'r dulliau gweithredu, ond nid y cyfan tuag at eu gwireddu.*

Cyfieithu llwyddiannus:

- 1. Gyda'i gilydd y mae'r rhain yn cynrychioli sawl nod y gellid, o'u cyfuno drwy systemau llywodraeth ddatganoledig, eu gwireddu. Fodd bynnag, dim ond rhai o'r cyfryngau angenrheidiol y gall llywodraeth ddatganoledig eu darparu.*

SYLWADAU:

1. Y mae'r tair brawddeg aflwyddiannus yn ymdrech deg i gyfieithu brawddeg heriol. Er hynny, y mae'n nodweddiadol o lawer o'r gwaith cyfieithu a ddaw ar ddesg y cyfieithydd.

2. Y mae Afl.1 wedi rhannu'r frawddeg wreiddiol yn ddwy sy'n ffordd ddeheuig o geisio dadansoddi brawddeg gymhleth amwys. Collir rhywfaint o ergyd y gwreiddiol drwy ddweud *cymorth* gan mai cyfeirio a wneir at allu'r llywodraeth ac nid ei hewylllys i gynorthwyo yn hyn o beth.

3. Y mae Afl.2 yn ymgais deg ond braidd yn llythrennol at gyfieithu'r frawddeg wreiddiol. Gan na ddylai cyfieithydd ddehongli heb gael rhagor o wybodaeth angenrheidiol yn aml, y mae'n llwybr diogel i'w ddilyn dan amgylchiadau o'r fath. Unwaith eto, y mae'r gair *arfau* i gyfieithu 'tools' yn gyfieithiad braidd yn rhy llythrennol.

4. Y mae gan Afl.3 hefyd ei rinweddau e.e. y gair 'cynrychioli'. Byddai ychydig o atalnodi gofalus wedi gwella cryn lawer ar y cyfieithiad hwn.

Cywirdeb

- *â ysbyrdolwyd* – a ysbyrdolwyd
- *â gynhyrchwyd* – a gynhyrchwyd
- *rwystodd* – rwystrodd
- *clwyed* – clywed
- *cynladwyedd* – cynaliadwyedd
- *gado* – gaddo – ond ‘addo’ yw’r ffurf ysgrifenedig
- *benderfyno* – benderfynon
- *cynladwy* – cynaliadwy
- *llunwyd* – lluniwyd
- *cynllunwyd* – cynlluniwyd
- *wydyn* - wydn

SYLW:

Byddai defnyddio CySill wedi cywiro 90% o’r llithriadau uchod.
Dengys y llithriadau hyn bwysigrwydd prawf ddarllen eich gwaith.

Ystyr

Bai cyffredin yw defnyddio geiriaduron a chyfieithu geiriau yn unig heb ystyried ystyr a chyd-destun:

1. *Brigyn Bangor Climate Strike* - ‘**Climate Strike Bangor [branch of]**’.
2. *Arweinyfr* - ‘**guide**’, lle cyfeirir at ganllaw cyfraith (paragraff 2)
3. *celfi ac offer* - ‘**tools**’ wrth gyfeirio at ddulliau gweithredu.
4. *dreigledig* - ‘**devolved**’ wrth gyfeirio at Lywodraeth Cymru. Disgwylir i gyfieithydd proffesiynol fod yn gyfarwydd iawn â thermau llywodraeth ddatganoledig a llywodraeth leol sy’n codi’n gyson yn newyddion Cymru o ddydd i ddydd.